Diweddariadau o WCVA

17 Medi 2018

Helo, a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

Os ydych yn chwilio am ysbrydoliaeth i ddatblygu'ch sgiliau arwain dylech fwrw golwg ar y diweddaraf yn ein cyfres o flogiau gan Steve Brooks, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Sustrans Cymru. Y llynedd Steve oedd y cyntaf i ennill y wobr ariannol newydd, Bwrsari Arweinyddiaeth Walter Dickie, (sydd unwaith eto ar agor i geisiadau nawr) ac mae e' wedi bod yn sôn am sut y defnyddiodd yr arian.

Nod Rhwydwaith Llywodraeth Agored Cymru yw gwneud y llywodraeth yn fwy agored drwy gael mwy o dryloywder, cyfranogi ac atebolrwydd. Ar 26 Medi mae'r gynghrair yn cynnal gweminar am ddim - Cyllideb Gyfranogol yng Nghymru - Gwersi o'r DU a thu hwnt - i archwilio cyfleoedd, heriau a gwersi gan ddefnyddio cyllideb gyfranogol a grymuso pobl leol i gyflawni newid cadarnhaol.

Diolch am ddarllen ac fe welwn ni chi eto wythnos nesaf

Gwirfoddoli
Deall a Denu gwirfoddolwyr yr unfed ganrif ar hugain

Rydym wrth ein boddau o groesawu Rob Jackson yn ôl i Gymru i ddarparu sesiynau hyfforddi i reolwyr gwirfoddolwyr ym mis Hydref.
Hyrwyddo'r Defnydd o'r Iaith Gymraeg

Os wyt ti'n siaradwr Cymraeg ac eisiau datblygu dy sgiliau iaith wrth annog mwy o bobl i ddefnyddio'r iaith brydferth yma, yna mae gan Mentrau Iaith Cymru gyfleodd gwirfoddoli gwych yn barod i ti.

Cyffredinol WCVA
Llefydd dal ar gael am ddigwyddiad Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UEd

Cofiwch am y cyfle i ddod i'n sesiwn gyda'r Swyddfa Gartref ar y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, a fydd yn rhoi trosolwg o'r hyn y gall dinasyddion yr UE ei ddisgwyl wrth ymgeisio am statws preswylydd sefydlog yn ogystal â'r rôl y bydd y Trydydd Sector a Llywodraeth Leol yn ei chwarae yn trosglwyddo'r negeseuon hyn.
Enwebiadau ar agor ar gyfer Hearts for the Arts 2019

Mae WCVA yn un o bartneriaid Gwobrau Hearts for the Arts; dathliad o hyrwyddwyr diwylliannol o fewn Awdurdodau Lleol a'r prosiectau sy'n rhoi'r celfyddydau wrth galon bywyd cymunedol.
Pan foch yn Nenmarc

Dyma trydydd ran ein cyfres gan enillydd Bwrsari Arweinyddiaeth Walter Dickie 2017, Steve Brooks, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Sustrans Cymru. Yn y blog yma mae'n sôn am beth ddysgodd ar gwrs Copenhagenize yn Nenmarc, a beth all arweinwyr trefi wneud i hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy yn eu dinasoedd.

Cyllid

Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles yng Nghymru 2019-2023 – Galw am Gynigion Grant

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 03 Rhagfyr 2018

Gweminar gyda Sefydliad Co-op

Cyfle i ddysgu mwy am raglenni cyllido Sefydliad Co-op

Sefydliadau Cymunedol y DU yn cyhoeddi Cronfa Gymunedol Treth Tamponau

Mae'r arian ar gael i grwpiau cymunedol ac elusennol sy'n cynnal prosiectau i gynorthwyo menywod a merched i ennill sgiliau a hyder, gwella eu hiechyd a'u llesiant, a meithrin rhwydweithiau cymdeithasol.

Triangle Trust ar agor i geisiadau

Mae'r Triangle Trust nawr yn gwahodd ceisiadau gan fudiadau cymunedol a gwirfoddol arbenigol sy'n helpu i adsefydlu troseddwyr neu gyn-droseddwyr yn y Deyrnas Unedig.

Mind ac Agenda yn lansio rhaglen i fenywod gefnogi iechyd meddwl ei gilydd

Mae Mind, yr elusen iechyd meddwl fwyaf blaenllaw yng Nghymru a Lloegr, ac Agenda, y gynghrair dros fenywod a merched mewn perygl, wedi cyhoeddi rhaglen grantiau gwerth £1.3m i fenywod gefnogi iechyd meddwl ei gilydd.

Yn cyhoeddi'r Gronfa Iach ac Egnïol

Mae Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dod ynghyd er mwyn rhoi'r Gronfa Iach ac Egnïol ar waith. Nod y Gronfa yw gwella iechyd meddyliol a chorfforol pobl drwy eu galluogi i fabwysiadu ffyrdd o fyw iach ac egnïol.

Hyfforddiant a digwyddiadau

Cyflwyniad i GDPR i'r trydydd sector

GDPR i ddechreuwyr – hyfforddiant hanfodol i'r trydydd sector

Delio gyda sgyrsiau anodd

Sgiliau a thechnegau i sefydlu ffiniau a rheoli gwrthdaro

Cyfle Olaf i Archebu - Gweminar: Ymgynghoriad Llwybr Carbon Isel i Gymru

A hoffech siapio datblygu cynaliadwy yng Nghymru? Cewch wybod sut i ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ein gweminar 19.09.18

Gweminar Llywodraeth Agored

Cyllideb Gyfranogol yng Nghymru - Gwersi o'r DU a thu hwnt

Polisi a gwleidyddiaeth

'Cynnydd yn y galw a lleihad mewn adnoddau yn anghynaliadwy'

Ein hymateb i'r ymgynghoriad ar Gyllideb ddrafft 2019-20 Llywodraeth Cymru.

Lansio Pecyn Adnoddau ar gyfer Datblygu Fforymau Gwerth Cymdeithasol

Hyrwyddo gwerth cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth: cefnogi canlyniadau llesiant unigolion a chymunedau lleol.

This week's updates from WCVA

17 September 2018

Hello, and welcome to this week's newsletter.

If you're looking for some inspiration for developing your leadership skills look no further than the latest in our series of blogs from Steve Brooks, National Director of Sustrans Cymru. Last year Steve was the first person to be awarded the newWalter Dickie Leadership Bursary (which is currently open again for applications) and he's been talking about how he used the fund.

The Wales Open Government Network aims to open up government through better transparency, participation and accountability. On 26 September the coalition is running a free webinar - Participatory Budgeting in Wales - Lessons from the UK and beyond - to explore the opportunities, challenges and lessons learnt in using participatory budgeting and to empower local people to achieve positive change.

Thanks for reading and we'll see you again next week

Volunteering
Understand and Engage with 21st century volunteers

We are delighted to be able to welcome Rob Jackson back to Wales to deliver training sessions for volunteer managers in October.
Promoting the use of Welsh Language

If you are a Welsh speaker and would like to develop your language skills and at the same time encourage more people to use this beautiful language, then Mentrau Iaith Cymru have some great volunteering opportunities lined up for you.

WCVA general
Places still available at EU Settlement Scheme event

Don’t miss your chance to attend our session with The Home Office on the EU Settlement Scheme, providing an overview on what EU citizens can expect when they apply for settled status as well as the role the Third Sector and Local Government will play in passing on these messages.
Nominations open for Hearts for the Arts 2019

WCVA is a partner in the Hearts for the Arts Awards; a celebration of cultural champions within Local Authority and the projects that place the arts at the centre of community life.
When in Denmark

This is the third part of our series from 2017 Walter Dickie Leadership Bursary winner Steve Brooks, National Director of Sustrans Cymru. In this blog he talks about what he learnt on the Copenhagenize course in Denmark, and how city leaders can promote sustainable transport in their cities.

Funding
Enabling Natural Resources and Well-Being in Wales 2019-2023 – Call for Grant Proposals

The deadline for applications is 03 December 2018

Webinar with the Co-op Foundation

Gain an insight into the Co-op Foundation's funding programmes
UK Community Foundations announce Tampon Tax Community Fund

The funding will be for community groups and charities who deliver projects that support women and girls to build skills and confidence, improve their health and wellbeing, and build social networks.
Triangle Trust open for applications

The Triangle Trust is now accepting applications from specialist community and voluntary organisations concerned with the rehabilitation of offenders or ex-offenders in the UK.
Mind and Agenda launch the Women's Mental Health Peer Support Programme

Mind, the leading mental health charity in England and Wales, and Agenda, the alliance for women and girls at risk, announce £1.3m women's mental health peer support grants programme.
Announcing the Healthy and Active Fund

Welsh Government, Sport Wales and Public Health Wales have come together to deliver the Healthy and Active Fund (HAF) which aims to improve mental and physical health by enabling the adoption of healthy and active lifestyles across Wales.

Training and events
An introduction to GDPR for the third sector

GDPR for beginners – crucial training for the third sector
Dealing with difficult conversations

Skills and techniques for establishing boundaries and managing conflict
Last Chance to Book - Webinar: A Low Carbon Pathway for Wales Consultation

Do you want to shape sustainable development in Wales? Find out about responding to the public consultation from our webinar 19.09.18
Open Government Webinar

Participatory Budgeting in Wales - Lessons from the UK and beyond

Policy and politics
'Increase in demand and decrease in resources is not sustainable'

Our response to the consultation on Welsh Government's 2019-20 draft Budget.
Launching the development of Social Value Forums Toolkit

Promoting social value in the delivery of care and support services: supporting the well-being outcomes for individuals and local communities.